



ADOLYGIAD O FFINIAU CYMUNEDOL A THREFNIADAU ETHOLIADOL

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

CYNIGION DRAFFT

9 Gorffennaf 2026

Dylid anfon pob sylw ar y cynigion drafft hyn at:

Gwasanaethau Etholiadol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Y Swyddfeydd Cyffredinol
Heol y Gwaith Dur
Glynebwy
NP23 6DN

Neu drwy e-bost at electoral.services@blaenau-gwent.gov.uk

Nid yn hwyr na hanner nos dydd Iau 20 Awst 2026.

Tudalen Gynnwys

Pennod 1	Crynodeb o'r Cynigion Drafft	3
Pennod 2	Polisi Maint y Cyngor	4
Pennod 3	Y Cynigion Drafft	6
	Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd	7
	Cyngor Tref Bryn-mawr	10
	Cyngor Cymuned Nant-y-glo a Blaenau	12
	Cyngor Tref Tredegar	13
	Glynebwy	15
Atodiad 1	Trefniadau Cymunedol Presennol	18
Atodiad 2	Trefniadau Cymunedol Arfaethedig	19
Atodiad 3	Sylwadau a Dderbyniwyd	20

Pennod 1

Crynodeb o'r Cynigion Drafft

1. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig newid i drefniadau cymunedau a wardiau cymunedol a ddylai sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar draws ardal y prif gyngor.
2. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig newidiadau i ffiniau 4 cymuned ar draws ardal y prif gyngor.
3. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig newidiadau i ffiniau 6 ward gymunedol ar draws ardal y prif gyngor.
4. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig newidiadau i drefniadau etholiadol 10 ward gymunedol.
5. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, derbyniodd y Cyngor sylwadau gan 2 Gyngor Tref a Chymuned, 5 Cynghorydd Cymuned ac 1 aelod o'r cyhoedd. Ystyriodd grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor y cynrychiolaethau'n ofalus cyn iddo lunio ei gynigion. Cyhoeddir yr holl sylwadau ar ddiwedd yr adroddiad.
6. Fel y disgrifir yn y Cylch Gorchwyl, wrth gynhyrchu cynllun o drefniadau cymunedol rhaid i'r Cyngor ystyried nifer o faterion sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth. Yng nghynllun arfaethedig y Cyngor, mae wedi rhoi pwyslais ar sicrhau bod cynghorau cymuned yn ddigonol o ran maint i gefnogi dyheadau'r prif awdurdod ar gyfer y dyfodol yn ogystal â lleihau unrhyw ddiffyg democrataidd, gan barhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
7. Yn y ddogfen hon, rhoddwyd enwau i'r gymuned a'r wardiau cymunedol arfaethedig sydd wedi'u bwriadu i gynrychioli'r ardal. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cydnabod y gallai fod enwau sy'n fwy priodol, a byddai'n croesawu awgrymiadau amgen a fyddai'n effeithiol naill ai yn Gymraeg neu Saesneg.
8. Mae'r cynllun drafft hwn yn cynrychioli barn ragarweiniol grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor ar ffiniau a threfniadau cymunedol ar gyfer ardal y prif gyngor. Mae'n croesawu unrhyw gynrychioliadau mewn perthynas â'r cynigion hyn. Bydd y Cyngor yn ystyried yn ofalus yr holl gynrychioliadau a wneir iddo.

Pennod 2 Polisi Maint y Cyngor

1. Cytunodd y Cyngor ar Gylch Gorchwyl a Pholisi Maint Cyngorau Tref a Chymuned mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 22 Ionawr 2026.
2. Ni ddylai cyfanswm nifer yr etholwyr o fewn ardal cyngor cymuned fod yn llai na 3,750 o etholwyr.
3. Mae'r Cyngor wedi datgan y dylai cymunedau gael eu cynrychioli gan ddim llai na 7 cynghorydd a dim mwy na 26 cynghorydd.
4. Mae'r Cyngor hefyd wedi datgan y dylai'r gymhareb o gynghorwyr i etholwyr fod yn 1:650 ac yn seiliedig ar raddfa symudol fel y nodir yn y tabl canlynol:

Nifer yr Etholwyr yn y Cyngor Cymuned	Nifer y Cynghorwyr Cymuned
0 – 4,000	7
4,001 – 6,000	7 – 9
6,001 – 8,000	9 – 12
8,001 – 10,000	12 – 15
10,001 – 12,000	15 – 18
12,001 – 14,000	18 – 21
14,001 – 16,000	21 – 24
16,001 plus	24 – 26

5. Yn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017, o'r deuddeg ward cyngor cymuned presennol, dim ond 1 ward gymunedol a gafodd ei herio; gweler Tabl 1 isod.
6. Yn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, roedd pob un o'r deuddeg ward cyngor cymuned heb eu herio; gweler Tabl 2 isod.
7. Yn dilyn etholiad 2022, roedd 27 o seddi gwag ac roedd 12 o'r seddi hynny yn dal yn wag ym mis Ionawr 2025.
8. Mae hyn yn arwydd o ddiffyg democrataidd gan fod diffyg democratiaeth posibl pan nad oes unrhyw seddi wedi'u herio.

Tabl 1 – Etholiadau Lleol Cyngorau Cymuned/Tref Mai 2017

CYNGOR TREF / CYMUNED	WARD GYMUNEDOL	SEDDI MAI 2017	CANLYNIAD ETHOLIAD	SEDDI GWAG
Abertyleri a Llanhilledd	Aber-bîg	3	Heb ei herio	2
	Abertyleri	5	Heb ei herio	3
	Six Bells	3	Heb ei herio	1
	Cwmtylleri	5	Heb ei herio	2
	Llanhilledd	3	Heb ei herio	3
Bryn-mawr	Gogledd Bryn-mawr	8	Heb ei herio	2
	De Bryn-mawr	8	Heb ei herio	0
Nant-y-glo a Blaenau	Nant-y-glo	8	Heb ei herio	5
	Blaenau	8	Heb ei herio	4
Tredegar	Canol a Gorllewin	8	Heb ei herio	0
	Georgetown	4	Heb ei herio	0
	Sirhywi	6	Wedi'i herio	0

Tabl 2 – Etholiadau Lleol Cyngorau Cymuned Mai 2022

CYNGOR TREF / CYMUNED	WARD GYMUNEDOL	SEDDI MAI 2022	CANLYNIAD ETHOLIAD	SEDDI GWAG
Abertyleri a Llanhilledd	Aber-bîg	3	Heb ei herio	0
	Abertyleri	5	Heb ei herio	1
	Six Bells	3	Heb ei herio	1
	Cwmtylleri	5	Heb ei herio	2
	Llanhilledd	3	Heb ei herio	1
Bryn-mawr	Gogledd Bryn-mawr	8	Heb ei herio	5
	De Bryn-mawr	8	Heb ei herio	2
Nant-y-glo a Blaenau	Nant-y-glo	8	Heb ei herio	4
	Blaenau	8	Heb ei herio	4
Tredegar	Canol a Gorllewin	8	Heb ei herio	6
	Georgetown	4	Heb ei herio	1
	Sirhywi	6	Heb ei herio	0

Pennod 3 Y Cynigion Drafft

1. Disgrifir y cynigion yn fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob cynnig newydd, mae'r adroddiad yn nodi:

- enw'r ardaloedd cymunedol presennol sy'n ffurfio'r cymunedau newydd diwygiedig arfaethedig;
- disgrifiad byr o'r trefniadau cymunedol presennol o ran nifer yr etholwyr a'r trefniadau wardiau;
- cyfansoddiad y trefniadau cymunedol arfaethedig;
- tabl sy'n nodi'r trefniadau cyngor cymuned/tref arfaethedig; a
- map o'r gymuned a/neu'r ward gymunedol arfaethedig.

CYNGOR CYMUNED ABERTYLERI A LLANHILEDD

2. Mae trefniadau presennol y cyngor cymuned yng Nghyngor Cymuned Abertyleri i Llanhilledd yn cynnwys cyfanswm o 11,305 o etholwyr ac fe'i cynrychiolir gan 19 o gynghorwyr cymuned.

WARD GYMUNEDOL	ETHOLWYR 1 RHAGFYR 2025	NIFER Y CYNGHORWYR
Aber-bîg	1,711	3
Abertyleri	2,988	5
Six Bells	1,695	3
Cwmtyleiri	3,348	5
Llanhilledd	1,563	3

Sylwadau

3. Derbyniodd y Cyngor 1 sylw ynghylch cymuned Abertyleri a Chyngor Cymuned Llanhilledd.

Cynigion ar gyfer ffiniau wardiau cymunedol

4. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig cymhwyso 2 newid i Gyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor o'r farn bod y cynigion hyn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus.
5. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig diddymu dwy ward gymunedol Aber-bîg a Llanhilledd a ffurfio un ward gymunedol newydd gan ddefnyddio'r ddwy ardal. Bydd y ffiniau presennol yn cael eu defnyddio i ffurfio'r ward gymunedol newydd.
6. O ganlyniad i'r cynnig hwn, byddai rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig yr etholwyr ar gyfer y ward gymunedol newydd yn 3,337.
7. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig diddymu dwy ward gymunedol Abertyleri a Six Bells a ffurfio un ward gymunedol newydd gan ddefnyddio'r ddwy ardal. Bydd y ffiniau presennol yn cael eu defnyddio i ffurfio'r ward gymunedol newydd.
8. O ganlyniad i'r cynnig hwn, byddai rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig yr etholwyr ar gyfer y ward gymunedol newydd yn 4,764.
9. Nid oes unrhyw gynigion i newid ffin bresennol ward gymunedol Cwmtyleiri, fodd bynnag, byddai rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig yr etholwyr ar gyfer y ward gymunedol yn 3,382.
10. Bydd y cynigion uchod yn adlewyrchu wardiau etholiadol presennol y prif gynghorau.

Enwau Arfaethedig

11. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig enwi'r ward gymunedol newydd yn Aberbeeg a Llanhilleth a chadw'r enwau Saesneg presennol ac yn Gymraeg, Aber-bîg a Llanhilledd.
12. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig enwi'r ward gymunedol newydd yn Abertillery a Six Bells a chadw'r enwau Saesneg presennol ac yn Gymraeg, Abertyleri a Six Bells.
13. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig cadw enw ward gymunedol Saesneg presennol Cwmtyleiri ac enw ward gymunedol Cymraeg Cwmtyleiri.


Trefniadau etholiadol Cyngor Cymuned

14. Bydd y trefniadau cyngor cymuned arfaethedig ar gyfer Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd yn cynnwys cyfanswm rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig o 11,483 o etholwyr, a bydd 17 o gynghorwyr cymuned yn eu cynrychioli.
15. Mae'n ofynnol i grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y cyngor cymuned a fyddai'n digwydd yn dilyn y cynigion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol arfaethedig y Cyngor ar gyfer y cyngor cymuned isod:


WARD GYMUNEDOL	Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd							
	Presennol				Arfaethedig			
	ETHOLWYR	CYNGHORWYR CYMUNED	ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	AMRYWIAD	ETHOLWYR	CYNGHORWYR CYMUNED	ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	AMRYWIAD
Aber-bîg	1,711	3	570	-12%	-	-	-	-
Abertyleri	2,988	5	598	-8%	-	-	-	-
Six Bells	1,695	3	565	-13%	-	-	-	-
Cwmtyleiri	3,348	5	670	3%	3,382	5	676	4%
Llanhilledd	1,563	3	521	-20%				
Aber-bîg a Llanhilledd	-	-	-	-	3,337	5	667	3%
Abertyleri a Six Bells	-	-	-	-	4,764	7	680	5%
	11,305	19	595	-8%	11,483	17	675	4%

16. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor wedi cynnig aelodaeth o 17 ar y Cyngor, sy'n ostyngiad o 2 aelod o'r trefniadau presennol ac yn unol â Pholisi Maint y Cyngor a fyddai'n rhoi hawl i'r gymuned gael rhwng 15 a 18 o gynghorwyr cymuned. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn credu y byddai'r trefniadau newydd yn gwella lefel llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn yr ardal.

Ward Gymunedol Newydd a Gynigiwyd – Aberbîg a Llanhilledd



Ward Gymunedol Newydd a Gynigiwyd – Abertyleri a Six Bells



CYNGOR TREF BRYN-MAWR

17. Mae trefniadau presennol y cyngor cymuned yng Nghyngor Tref Bryn-mawr yn cynnwys cyfanswm o 3,909 o etholwyr ac fe'i cynrychiolir gan 16 o gynghorwyr cymuned.

WARD GYMUNEDOL	ETHOLWYR 1 RHAGFYR 2025	NIFER Y CYNGHORWYR
Gogledd Bryn-mawr	1,831	8
De Bryn-mawr	2,078	8

Sylwadau

18. Derbyniodd y Cyngor 2 sylw ynghylch cymuned Cyngor Tref Bryn-mawr.

Cynigion ar gyfer ffiniau wardiau cymunedol

19. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig cymhwyso 1 newid i Gyngor Tref Bryn-mawr. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor o'r farn bod y cynigion hyn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus.
20. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig diddymu'r ddwy ward gymunedol Gogledd Bryn-mawr a De Bryn-mawr a ffurfio un ward gymunedol newydd gan ddefnyddio'r ddwy ardal. Bydd y ffiniau presennol yn cael eu defnyddio i ffurfio'r ward gymunedol newydd.
21. O ganlyniad i'r cynnig hwn, byddai rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig yr etholwyr ar gyfer y ward gymunedol newydd yn 3,944.
22. Bydd y cynnig uchod yn adlewyrchu ward etholiadol y prif gynghorau presennol.

Enwau Arfaethedig

23. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig enwi'r ward gymunedol newydd yn Brynmawr a chadw'r enw Saesneg presennol ac, yn Gymraeg, Bryn-mawr.


Trefniadau etholiadol Cyngor Cymuned

24. Bydd y trefniadau cyngor cymuned arfaethedig ar gyfer Cyngor Tref Bryn-mawr yn cynnwys cyfanswm rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig yr etholwyr yn 3,944 a bydd 7 cynghorydd cymuned yn eu cynrychioli.
25. Mae'n ofynnol i grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y cyngor cymuned a fyddai'n digwydd yn dilyn y cynigion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol arfaethedig y Cyngor ar gyfer y cyngor cymuned isod:

	Cyngor Tref Bryn-mawr							
	Presennol				Arfaethedig			
WARD GYMUNEDOL	ETHOLWYR	CYNGHORWYR CYMUNED	ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	AMRYWIAD	ETHOLWYR	CYNGHORWYR CYMUNED	ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	AMRYWIAD
Gogledd Bryn-mawr	1,831	8	229	-65%	-	-	-	-
De Bryn-mawr	2,078	8	260	-60%	-	-	-	-
Bryn-mawr					3,944	7	563	-13%
	3,909	16	244	-63%	3,944	7	563	-13%

26. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor wedi cynnig aelodaeth o 7 ar y Cyngor, sy'n ostyngiad o 9 aelod o'i gymharu â'r trefniadau presennol ac mae'n unol â Pholisi Maint y Cyngor a fyddai'n rhoi hawl i'r gymuned gael 7 cyngorydd cymuned. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn credu y byddai'r trefniadau newydd yn gwella lefel llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn yr ardal.

Ward Gymunedol Newydd a Gynigiwyd – Bryn Mawr



CYNGOR CYMUNED NANT-Y-GLO A BLAENAU

27. Mae trefniadau presennol Cyngor Cymuned Nant-y-glo a Blaenau yn cynnwys cyfanswm o 6,627 o etholwyr ac fe'i cynrychiolir gan 16 o gynghorwyr cymuned.

WARD GYMUNEDOL	ETHOLWYR 1 RHAGFYR 2025	NIFER Y CYNGHORWYR
Nant-y-glo	3,240	8
Blaenau	3,387	8

Sylwadau

28. Derbyniodd y Cyngor 6 sylw ynghylch cymuned Cyngor Cymuned Nant-y-glo a Blaenau.

Cynigion ar gyfer ffiniau wardiau cymunedol

29. Nid oes unrhyw gynigion i newid ffiniau presennol wardiau cymunedol cyngor cymuned Nant-y-glo a Blaenau, fodd bynnag, byddai rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig yr etholwyr ar gyfer ward gymunedol Nant-y-glo yn 3,279 a 3,454 ar gyfer ward gymunedol Blaenau.

Enwau Arfaethedig

30. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig cadw enwau Saesneg presennol wardiau cymunedol Nant-y-glo a Blaenau ac yn Gymraeg, Nant-y-glo a Blaenau.

Trefniadau etholiadol Cyngor Cymuned

31. Bydd trefniadau arfaethedig Cyngor Cymuned Nant-y-glo a Blaenau yn cynnwys cyfanswm rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig yr etholwyr yn 6,733 a bydd 10 cynghorydd cymuned yn eu cynrychioli. Gellir gweld trefniadau etholiadol arfaethedig y Cyngor ar gyfer y cyngor cymuned isod:

WARD GYMUNEDOL	Cyngor Cymuned Nant-y-glo a Blaenau							
	Presennol				Arfaethedig			
WARD GYMUNEDOL	ETHOLWYR	CYNGHORWYR CYMUNED	ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	AMRYWIAD	ETHOLWYR	CYNGHORWYR CYMUNED	ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	AMRYWIAD
Nant-y-glo	3,240	8	405	-38%	3,279	5	656	0%
Blaenau	3,387	8	423	-35%	3,454	5	691	6%
	6,627	16	414	-36%	6,733	10	673	4%

32. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor wedi cynnig aelodaeth o 10 ar y Cyngor, sy'n ostyngiad o 6 aelod o'r trefniadau presennol ac yn unol â Pholisi Maint y Cyngor a fyddai'n rhoi hawl i'r gymuned gael rhwng 9 a 12 o gynghorwyr cymuned. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn credu y byddai'r trefniadau newydd yn gwella lefel llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn yr ardal.

CYNGOR TREF TREDEGAR

33. Mae trefniadau presennol y cyngor cymuned yng Nghyngor Tref Tredegar yn cynnwys cyfanswm o 11,139 o etholwyr ac fe'i cynrychiolir gan 18 o gynghorwyr cymuned.

WARD GYMUNEDOL	ETHOLWYR 1 RHAGFYR 2025	NIFER Y CYNGHORWYR
Canol a Gorllewin	3,989	8
Georgetown	3,062	4
Sirhywi	4,088	6

Sylwadau

34. Ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw sylwadau ynghylch cymuned Cyngor Tref Tredegar.

Cynigion ar gyfer ffiniau wardiau cymunedol

35. Nid oes unrhyw gynigion i newid ffiniau presennol wardiau cymunedol Cyngor Tref Tredegar, fodd bynnag, byddai rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig yr etholwyr ar gyfer ward gymunedol Canol a Gorllewin yn 4,053, ward gymunedol Georgetown yn 3,105 a ward gymunedol Sirhywi yn 4,179.

Enwau Arfaethedig

36. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig cadw enwau Saesneg presennol y wardiau cymunedol Central & West, Georgetown a Sirhowy ac yn Gymraeg, Canol a Gorllewin, Georgetown a Sirhywi.

Trefniadau etholiadol Cyngor Cymuned

37. Bydd y trefniadau cyngor cymuned arfaethedig ar gyfer Cyngor Tref Tredegar yn cynnwys cyfanswm rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig o 11,337 etholwyr, a bydd 17 o gynghorwyr cymuned yn eu cynrychioli. Gellir gweld trefniadau etholiadol arfaethedig y Cyngor ar gyfer y cyngor cymuned isod:

WARD GYMUNEDOL	Cyngor Tref Tredegar							
	Presennol				Arfaethedig			
WARD GYMUNEDOL	ETHOLWYR	CYNGHORWYR CYMUNED	ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	AMRYWIAD	ETHOLWYR	CYNGHORWYR CYMUNED	ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	AMRYWIAD
Canol a Gorllewin	3,989	8	499	-23%	4,053	6	676	4%
Georgetown	3,062	4	766	18%	3,105	5	621	-5%
Sirhywi	4,088	6	681	5%	4,179	6	697	7%
	11,139	18	619	-5%	11,337	17	667	3%

38. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor wedi cynnig aelodaeth o 17 ar y Cyngor, sy'n ostyngiad o 1 aelod o'r trefniadau presennol ac yn unol â Pholisi Maint y Cyngor a fyddai'n rhoi hawl i'r gymuned gael rhwng 15 a 18 o gynghorwyr cymuned. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn credu y byddai'r trefniadau newydd yn gwella lefel llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn yr ardal.

GLYNEBWY

39. Ar hyn o bryd nid oes cyngor cymuned ar gyfer Glynebwy ond fel rhan o'r adolygiad hwn, mae ffiniau'r cymunedau yng Nglynebwy wedi'u hadolygu. Y cymunedau presennol yw:

CYMUNED	ETHOLWYR 1 RHAGFYR 2025
Badminton	2,637
Cendl	2,071
Cwm	3,168
Gogledd Glynebwy	3,394
De Glynebwy	3,019
Garnlydan	533
Rasa	2,444

Sylwadau

40. Ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw sylwadau ynghylch y cymunedau yng Nglynebwy.

Cynigion ffiniau cymunedol

41. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig lleihau nifer y Cymunedau yng Nglynebwy o 7 i 5.
42. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig diddymu dwy gymuned Badminton a Cendl a ffurfio un gymuned newydd gan ddefnyddio'r 2 ardal. Bydd y ffiniau presennol yn cael eu defnyddio i ffurfio'r gymuned newydd.
43. O ganlyniad i'r cynnig hwn, byddai rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig yr etholwyr ar gyfer y gymuned newydd yn 4,666.
44. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig diddymu dwy gymuned Rasa a Garnlydan a ffurfio un gymuned newydd gan ddefnyddio'r 2 ardal. Bydd y ffiniau presennol yn cael eu defnyddio i ffurfio'r gymuned newydd.
45. O ganlyniad i'r cynnig hwn, byddai rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig yr etholwyr ar gyfer y gymuned newydd yn 2,978.
46. Nid oes unrhyw gynigion i newid ffiniau cymunedol presennol Cwm, Gogledd Glynebwy a De Glynebwy. Byddai rhagolwg 5 mlynedd amcanestynedig yr etholwyr ar gyfer y cymunedau yn 3,240 ar gyfer Cwm, 3,459 ar gyfer Gogledd Glynebwy a 3,053 ar gyfer De Glynebwy.
47. Bydd y cynigion uchod yn adlewyrchu wardiau etholiadol y prif gynghorau presennol.

Enwau Arfaethedig


48. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig enwi'r gymuned newydd yn Badminton a Beaufort a chadw'r enwau Saesneg presennol ac yn Gymraeg, Badminton a Cendl.
49. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig enwi'r gymuned newydd yn Rassau a Garnlydan a chadw'r enwau Saesneg presennol ac yn Gymraeg, Rasa a Garnlydan.
50. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig cadw'r enw cymunedol Saesneg a Chymraeg presennol, Cwm.
51. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig cadw'r enw cymunedol Saesneg presennol Ebbw Vale North ac, yn Gymraeg, Gogledd Glynebwy.
52. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor yn cynnig cadw'r enw cymunedol Saesneg presennol Ebbw Vale South ac, yn Gymraeg, De Glynebwy.

Trefniadau etholiadol cymunedol


53. Gellir gweld trefniadau cymunedol arfaethedig y Cyngor ar gyfer Glynebwy isod:

CYMUNED	RHAGOLWG 5 MLYNEDD ETHOLWYR
Cendl a Badminton	4,666
Cwm	3,240
Gogledd Glynebwy	3,459
De Glynebwy	3,053
Rasa a Garnlydan	2,978

Cymuned Newydd Gynigion – Badminton a Cendl



Cymuned Newydd Gynigion – Rasa a Garnlydan



Atodiad 1 Trefniadau Cymunedol Presennol

ENW'R CYNGOR CYMUNED / TREF	WARD GYMUNEDOL	ETHOLWYR	CYNGHORWYR CYMUNED	ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	AMRYWIAD
Abertyleri a Llanhilledd	Aber-bîg	1,711	3	570	-12%
	Abertyleri	2,988	5	598	-8%
	Six Bells	1,695	3	565	-13%
	Cwmtylleri	3,348	5	670	3%
	Llanhilledd	1,563	3	521	-20%
Bryn-mawr	Gogledd Bryn- mawr	1,831	8	229	-65%
	De Bryn-mawr	2,078	8	260	-60%
Nant-y-glo a Blaenau	Nant-y-glo	3,240	8	405	-38%
	Blaenau	3,387	8	423	-35%
Tredegar	Canol a Gorllewin	3,989	8	499	-23%
	Georgetown	3,062	4	766	18%
	Sirhywi	4,088	6	681	5%

Atodiad 2 Trefniadau Cymunedol Arfaethedig

ENW'R CYNGOR CYMUNED / TREF	WARD GYMUNEDOL	ETHOLWYR	CYNGHORWYR CYMUNED	ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	AMRYWIAD
Abertyleri a Llanhilledd	Aber-bîg a Llanhilledd	3,337	5	667	3%
	Abertyleri a Six Bells	4,764	7	680	5%
	Cwmtyleri	3,382	5	676	4%
Bryn-mawr	Bryn-mawr	3,944	7	563	-13%
Nant-y-glo a Blaenau	Nant-y-glo	3,279	5	656	0%
	Blaenau	3,454	5	691	6%
Tredegar	Canol a Gorllewin	4,053	6	676	4%
	Georgetown	3,105	5	621	-5%
	Sirhywi	4,179	6	697	7%

Atodiad 3 Sylwadau a Dderbyniwyd o'r Ymgynghoriad Cychwynnol



Sylwadau ac adborth a dderbyniwyd gan y Swyddfa Etholiadau mewn perthynas â'r cyfnod ymgynghori cychwynnol ar gyfer yr Adolygiad o Drefniadau Etholiadol

Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost gan Glerc Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd:

Trafododd ein Cyngor yr adolygiad yn ei gyfarfod ddydd Mercher 25 Chwefror. Mae wedi cytuno y dylem alinio ein 5 Ward Cyngor Cymuned presennol â 3 Ward y Fwrdeistref Sirol.

Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost gan Glerc Cyngor Tref Bryn-mawr:

Yn ystod Cyfarfod Cyngor Llawn cyfredol, cyflwynais Drefniadau Etholiadol Bryn-mawr i'r aelodau. Gweler isod farn yr aelodau ynghylch Wardiau Tref Bryn-mawr a nifer y Cyngorwyr:

Mae Bryn-mawr yn gweithredu'n ymarferol fel un dref gydlynol. Mae trigolion yn rhannu gwasanaethau, ysgolion, sefydliadau cymunedol, darpariaeth manwerthu a seilwaith cymdeithasol. Nid yw profiad bywyd y gymuned yn cyd-fynd â'r rhaniad gweinyddol presennol rhwng Gogledd Bryn-mawr a De Bryn-mawr.

Mae parhad y rhaniad hwn yn peri risg o gyflwyno cymhlethdod diangen i drigolion o ran deall cynrychiolaeth a chael mynediad at gefnogaeth. Gall hefyd greu gwahaniaeth artiffisial o fewn yr hyn sydd, mewn gwirionedd, yn gymuned sydd wedi'i chysylltu'n naturiol.

Yng ngoleuni hyn, byddai'r Aelodau'n cynnig yn barchus y dylid ystyried y canlynol:

1. Creu un ward Bryn-mawr unedig

Byddai dod â Bryn-mawr ynghyd fel un ward yn:

- Adlewyrchu hunaniaeth y gymuned yn fwy cywir*
- Gwella eglurder cynrychiolaeth i drigolion*
- Cefnogi llywodraethu lleol cryfach a mwy cydlynol*
- Osgoi parhad rhaniadau sy'n weinyddol yn hytrach na rhai a arweinir gan y gymuned*

2. Cadw nifer presennol y Cyngorwyr Tref

Mae'n bwysig nad yw unrhyw newid strwythurol yn arwain at ostyngiad mewn cynrychiolaeth. Mae pob Cyngorydd Tref yn gwasanaethu'n wirfoddol (nid oes unrhyw aelod o Gyngor Tref Bryn-mawr yn derbyn unrhyw daliadau) a bydd cynnal nifer presennol y cyngorwyr yn:

- Cefnogi hygyrchedd parhaus i drigolion*
- Diogelu capasiti ymgysylltu cymunedol*
- Cryfhau cynaliadwyedd cyfranogiad democrataidd lleol*
- Sicrhau gwydnwch ar gyfer dyfodol gwasanaeth cyhoeddus gwirfoddol*

Byddai'r dull hwn yn symleiddio trefniadau llywodraethu heb gynyddu cost, gan gynnal cynrychiolaeth gref ac atebol.

Yn gyffredinol, byddai strwythur ward unedig yn adlewyrchu'n well sut mae Bryn-mawr yn gweithredu fel cymuned heddiw a byddai'n cefnogi llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn unol ag amcanion yr adolygiad.

Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost gan Glerc Cyngor Tref Bryn-mawr:

Mae aelodau wedi anfon un pwynt dilys arall yr hoffent iddo gael ei ystyried ynghylch dim ond (7) aelod sy'n eistedd ar Gyngor y Dref, sef os yw rhai aelodau'n gweithio neu'n methu â mynychu pob cyfarfod oherwydd ymrwymadau eraill, gallai hyn arwain at ddiffyg cworwm neu ychydig iawn o aelodau i wneud penderfyniadau ar yr eitemau ar yr agenda a fyddai angen barn mwy na 3-4 aelod.

Byddai aelodau'n gwerthfawrogi pe baech yn ystyried hyn yn y broses adolygu yn ogystal â'r pwyntiau a anfonwyd ar 26 Chwefror:

Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost gan aelod o'r cyhoedd:

Cyf / Blaenau

Mae angen lleihau nifer aelodau cyngor cymuned Nant-y-glo a Blaenau yn sylweddol, ac mae hyn oherwydd bod llawer ohonynt yn aelodau heb eu hethol o'r Cyngor oherwydd diffyg nifer y bobl sy'n sefyll adeg yr etholiad, felly mae pobl yn cael eu cyfethol ar hyn o bryd, sy'n annemocrataidd. Ychydig iawn y mae Cyngor Tref Nant-y-glo a Blaenau yn ei wneud gyda'u harian awdurdod ar gyfer ein hardal, mae'r rhan fwyaf o'r arian yn mynd i dalu am glerc a dirprwy glerc, fel arall dim ond goleuadau Nadolig a rhai potiau planhigion a welwn yn ein hardal a ddarperir gan Gyngor y Dref. Nid oes gennym werth am ein harian. Mewn gwirionedd, hoffwn weld Cyngor Tref Blaenau yn cael ei ddiddymu ac unrhyw arian sydd ganddynt yn cael ei roi i wasanaethau ieuenctid ar gyfer yr ardal, gan gynnwys y £38,000 a dderbyniasant am werthu capel Salem Blaenau.

Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost gan y Cynghorydd Cymuned David Wright:

Rwyf wedi bod ar y Cyngor ers tua blwyddyn bellach a gallaf weld faint o bethau rydyn ni'n eu gwneud. Hoffwn wneud mwy i Nant-y-glo ac rwy'n poeni os byddwn ni'n mynd i lawr i 10 aelod y bydd hi'n anoddach gwneud pethau neu'n waeth y gallai fod yn amhosibl gan na fydd gennym ni ddigon o bobl i wneud pethau'n iawn.

Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost gan y Cynghorydd Cymuned David Finch:

Rwy'n gynghorydd tref newydd ei benodi gyda chynghor tref Nant-y-glo a Blaenau. Rydym wedi cael gwybodaeth ynghylch lleihau nifer y cynghorwyr i 10 o 16. Mae gennyf gwestiynau a sylwadau ynghylch y gostyngiad hwn.

1. Pa wahaniaeth mae'n ei wneud, faint sydd yna? Rwy'n wirfoddolwr ac yn rhoi fy amser i'r gymuned leol rwy'n byw ynddi (Nant-y-glo).

2. Pe bai'r gostyngiad yn dod i rym, pwy fyddai'n gadael? olaf i mewn - cyntaf allan?

3. Sut mae nifer y bobl ym mhob ardal yn cael eu penderfynu? A yw'n seiliedig ar bleidleiswyr, y rhai dros 18 oed? Y rhai ar y gofrestr etholiadol? Nid yw llawer ar y gofrestr ond gallant bleidleisio o hyd, sut mae'r rheini'n cael eu cyfrif? Hefyd pa ardal y mae Lakeside yn cael ei chyfrif ynddi, Nant-y-glo neu Fryn-mawr? Mae'r ffiniau wedi bod yn destun dadl ers sawl blwyddyn?

Mae cyngor y dref yn gwneud gwaith gwerthfawr o fewn y gymuned leol, dyma un o'r prif resymau pam roeddwn i eisiau dod yn gynghorydd tref, i helpu fy nghyd-drigolion i ffynnu yn y gymuned. Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf rydym wedi darparu bocsys siocled i dros 1000 o blant ysgol lleol adeg y Nadolig, wedi plannu bylbiau mewn planwyr sydd bellach yn dechrau bywiogi'r ardal, wedi helpu'r banc bwyd lleol ac rydym wedi prynu dros 1000 o wyau Pasg yn ddiweddar a fydd yn cael eu rhoi i blant ifanc a allai beidio â derbyn dim os na fyddem yn eu darparu.

Yn ddiweddar cawsom gyflwyniad ynghylch "Y Fargen". Roedd llawer o 'Y Fargen' yn ymwneud â gweithio gyda gwirfoddolwyr a grwpiau lleol, gan roi cymorth iddynt i gyflawni eu nodau, a nawr rydych chi eisiau lleihau nifer y gwirfoddolwyr. Mae hyn yn ymddangos yn wrthddywediad.

Hoffwn ddatgan yr achos, fel gwirfoddolwyr, ein bod ni'n dod â gwerth, ymrwymiad a sicrwydd bod rhywun yn gofalu am drigolion. Byddai lleihau'r nifer hwn yn lleihau'r gwaith cymunedol rhagorol rwyf fi a chynghorwyr tref eraill yn ei wneud.

Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost gan y Cynghorydd Cymuned Mark Evans:

Rwy'n ysgrifennu i wrthwynebu'n ffurfiol y cynnig gan Gyngor Blaenau Gwent i leihau nifer yr aelodau o fewn Cyngor Tref Nant-y-glo a Blaenau o 16 i 10.

Er fy mod yn deall bod y cynnig hwn yn seiliedig ar y Gofrestr Etholwyr, credaf ei fod yn anwybyddu'r gwerth sylweddol y mae'r 16 aelod presennol yn ei ddarparu i'n cymuned. Am y tro cyntaf, mae gennym Gyngor gydag aelodaeth lawn, sy'n cynrychioli ystod amrywiol o oedrannau a safbwyntiau. Mae'r aelodau hyn yn gweithio'n ddiflino dros yr ardal leol, a byddai lleihau eu niferoedd yn anochel yn lleihau effaith a chyrhaeddiad mentrau'r Cyngor.

Rwy'n eich annog yn gryf i ailystyried y gostyngiad hwn a chynnal y lefel aelodaeth bresennol i sicrhau bod ein cymuned yn parhau i gael ei gwasanaethu a'i chynrychioli'n dda.

Diolch am eich amser ac am ystyried fy mhryderon.

Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost gan y Cynghorydd Cymuned Glyn Morvan:

O ran yr adolygiad parhaus uchod, hoffwn gofnodi fy ngwrthwynebiad i'r gostyngiad arfaethedig yn nifer y cynghorwyr etholedig sy'n cynrychioli Cyngor Tref Nant-y-glo a Blaenau.

Y cynnig a gyflwynwyd ger ein bron yw y bydd cyfanswm nifer y cynghorwyr yn lleihau o'r 16 presennol i 10 a fydd yn cyfateb i 5 ar gyfer Nant-y-glo a 5 ar gyfer Blaenau.

Rwy'n deall bod angen adolygiadau ond mae maint arfaethedig y gostyngiad i'n Cyngor yn ymddangos yn ormodol i ddweud y lleiaf.

Fel Cyngor rydym bob amser wedi ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i holl drigolion y ddwy dref a wasanaethwn. Dim ond os oes gennym yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gynnal y safonau uchel yr ydym wedi'u gosod i ni ein hunain y gellir cyflawni'r gwasanaeth hwn.

Mae adolygiadau eraill wedi nodi'n ddiweddar bod argyfwng iechyd democrataidd yn ein cymunedau a byddwn yn cyflwyno y byddai'r cynigion presennol yn ychwanegu'n sylweddol at yr argyfwng hwn.

Rhan o'r broses a ddefnyddir i bennu lefel cynrychiolaeth y Cyngor yw nifer y bobl sy'n gymwys i bleidleisio. Fel y gwyddom, mae'r oedran y caniateir i chi bleidleisio mewn etholiadau Cyngor lleol yng Nghymru wedi'i ostwng i 16 oed. A yw'r pleidleiswyr newydd hyn wedi'u cynnwys yn eich cyfrifiadau?

Hefyd, mae cynlluniau, er yn eu camau cynnar, i ddatblygu hen safle Ysgol Nant-y-glo. Os bydd y cynllun hwn yn mynd yn ei flaen eto, bydd nifer yr etholwyr yn nalgylch Cyngor Tref Nant-y-glo a Blaenau yn cynyddu'n sylweddol, yn ogystal â chyfrifoldebau'r Cyngor i'r unigolion hyn. Os bydd y gostyngiad arfaethedig mewn cynghorwyr yn mynd yn ei flaen, yna byddai gallu'r Cyngor i wasanaethu'r ardal leol yn briodol yn cael ei amharu'n sylweddol.

Mae'n ymddangos bod y cynnig fel y mae yn erydu'n sylweddol haen waelod llywodraeth leol a etholwyd yn ddemocrataidd. Felly, byddwn yn gofyn am ailasesu'r cynnig a rhoi ystyriaeth o ddifrif i gadw nifer y cynghorwyr ar gyfer Cyngor Tref Nant-y-glo a Blaenau ar 16. Os teimlir nad yw hyn yn bosibl, yna dylid cynyddu'r nifer o 10 i isafswm o 14.

Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost gan y Cynghorydd Cymuned Sue Howlett:

Rwy'n ysgrifennu fel Cynghorydd Tref dros Nant-y-glo a Blaenau ac roeddwn i eisiau lleisio fy mhryderon ynghylch cwtogi seddi Cyngor y Dref o 16 i 10.

Gyda chyflwyniad 'Y Fargen', yr wyf yn siŵr bod hyrwyddo mwy o gynhwysiant gan drigolion a gwneud Blaenau Gwent yn gymuned well i bawb wedi'i groesawu. Ond dim ond trwy estyn allan at y cymunedau hyn y gallwn wneud hynny, sef ar lawr gwlad, yr hyn y mae ein cynghorwyr lleol yn ei wneud.

Fy mhryder yw, ar ôl byw yn Nant-y-glo am y 24 mlynedd diwethaf, gallaf weld pam ei fod ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2025.

Fel cynghorwyr mae'n rhaid i ni weithio'n galed i gael ein cymunedau lleol i gymryd rhan a chyfrannu, ac i'w hannog i ymgysylltu, sef rhai o egwyddorion 'Y Fargen'. Mae rhai eisoes yn ein gweld ni fel eu llais dros eu cymuned, nid yw rhai yn ein gweld felly, ond yn bennaf oherwydd nad ydyn nhw'n deall beth rydyn ni'n ei wneud a sut y gallwn ni helpu, ein nod yw newid hynny a gwneud Cyngor y Dref yn fwy gweladwy yn ein cymuned.

Rydyn ni eisiau mwy o ymgysylltu â chymunedau gan, o'r hyn y gallaf ei weld, mae 'Y Fargen' wedi'i hadeiladu o amgylch hynny, ac rwy'n ofni, os byddwch chi'n lleihau nifer seddi'r Cyngor, y byddwch chi'n dileu ein gallu i wneud hynny.

Felly, hoffwn leisio fy ngwrthwynebiad i'r gostyngiad yn nifer seddi'r Cyngor Tref ar gyfer Nant-y-glo a Blaenau.